# Hyb Gweithgynhyrchu Gwyrdd Convatec

## Ymgynghoriad statudol

**DYDD MERCHER 17 EBRILL I DYDD MERCHER 29 MAI 2024**

**Yn rhan o'n taith at sero net, mae Convatec yn paratoi cynlluniau i ddefnyddio gwynt a haul lleol i greu ein hynni gwyrdd ein hunain i bweru'r gwaith o weithgynhyrchu ein cynnyrch meddygol yn Rhymni.**

Mae'r Hyb Gweithgynhyrchu Gwyrdd arfaethedig yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â ffermwyr lleol a byddai wedi'i leoli gerllaw ein safle gweithgynhyrchu yn Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd yn Rhymni (gweler y map lleoliad trosodd).

Bydd y prosiect yn cynnwys tri thyrbin gwynt, a thua 10 hectar o baneli solar, gan ddarparu cyfanswm capasiti cynhyrchu o ryw 20MW. Ers i ni gyflwyno ein cynigion sy'n dod i'r amlwg, i'r gymuned yn ôl ym mis Mehefin 2023, rydym wedi bod yn gwneud y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r cynlluniau hyn, ac rydyn ni nawr yn paratoi i gyflwyno ein cynigion manwl i Lywodraeth Cymru.

Mae'r cynigion hyn, sydd wedi ystyried astudiaethau amgylcheddol a thechnegol helaeth, yn ogystal ag adolygiad o'r adborth o'n hymgynghoriadau cyhoeddus cynnar, yn sail i'r ymgynghoriad statudol chwe wythnos hwn.

## Arddangosfeydd cyhoeddus

I weld ein cynigion manwl ac i ddweud eich dweud, galwch heibio rhwng yr amseroedd hyn yn y lleoliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 3pm i 6pm | Dydd Mercher 15 Mai | Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, Teras Oakland Rhymni NP22 5EP |
| 10am i 2pm | Dydd Iau 16 Mai | Canolfan Ddydd Rhymni, Stryd Tre-York Rhymni NP22 5LR |

Mae'r holl wybodaeth a gyflwynir yn yr arddangosfeydd cyhoeddus hefyd ar gael ar ein gwefan.

## Cynhyrchu ein hynni gwyrdd ein hunain

Mae Convatec am chwarae ei ran wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy ddod yn sero net ledled y byd erbyn 2045. Yng Nghymru byddwn yn gwneud hyn drwy leihau ein dibyniaeth ar nwy naturiol a thrydan grid yn sylweddol yn ein gweithfeydd yn Rhymni a Glannau Dyfrdwy.

## Sefydlogrwydd

Mae ein cynllun hefyd yn ymwneud â sicrhau dyfodol gwyrdd sefydlog ar gyfer ein ffatri yn Rhymni,gan elwa ar ein buddsoddiad mawr a hirdymor mewn ynni glân. Gyda dros 100 o weithwyr, bydd ein busnes yn dod yn fwy effeithlon ac amgylcheddol gynaliadwy oherwydd y caiff marchnadoedd byd-eang a geowleidyddiaeth lai o effaith ar ynni glân a gynhyrchir yn lleol.



Argraffiad ffotogyfosodiad o gynigion yn dangos tyrbinau, paneli solar a chyfleuster gweithgynhyrchu cyfagos

# Mae ein cynigion yn cynnwys

- Tri thyrbin gwynt ag uchder llafn uchaf hyd at 150 metr a chynhwysedd cyfunol o oddeutu 15MW
- Fferm solar (aráe o Solar Ffotofoltäig) gyda chynhwysedd o oddeutu 5MW
- Gwifren breifat i gyflenwi ynni o'r hyb i'n cyfleuster gweithgynhyrchu yn Ystâd Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd
- Is-orsaf drydanol ac adeilad rheoli
- Traciau mynediad a phadiau craeniau
- Cyrtiau adeiladu a storio dros dro

Er mwyn cynyddu effeithlonrwydd, mae angen lleoli'r Hyb ar dir yn agos at ein cyfleuster yn Rhymni ac rydyn ni'n gweithio gyda ffermwyr cyfagos i ddwyn y prosiect pwysig hwn ymlaen.

## Ynni dros ben at ddefnydd lleol

Mae'r ynni a gynhyrchir yn debygol o fod yn fwy na'r swm sydd ei angen i bweru gweithrediadau Convatec yn Rhymni. Tra ein bod yn gobeithio gallu defnyddio rhywfaint o hwn i bweru ein ffatri yng Nglannau Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru hefyd, rydym yn archwilio sut y gallai'r ynni dros ben hwn gael ei ddefnyddio hefyd gan fusnesau lleol cyfagos a sefydliadau cymunedol yn Rhymni a'r cyffiniau.

## Cronfa Budd Cymunedol


Bydd Convatec yn cynnwys y gymuned yn llawn er mwyn helpu i sicrhau'r budd mwyaf posibl ar draws yr ardal. Rydym yn archwilio sut y gellid defnyddio ein Cronfa Budd Cymunedol o ryw £75,000 y flwyddyn orau i gyflawni prosiectau ystyrlon yn Rhymni.

## Dweud eich dweud

Rhowch eich barn i ni ar ein cynigion manwl trwy:

1. Cwblhau'r ffurflen adborth, naill ai'n bersonol yn ein digwyddiadau, neu ar-lein yn: **convatecgroup.com/green-manufacturing-hub-rhymney**
2. Ffonio: **01685 701254**
3. E-bostio: **rhymneygreenhub@convatec.com**
4. Ysgrifennu i: **Rhadbost/Freepost GRASSHOPPER CONSULT** (nid oes angen stamp na chyfeiriad ychwanegol)
5. **Cyflwynwch eich sylwadau erbyn dydd Mercher 29 Mai.** Bydd y manylion cyswllt hyn yn eich rhoi mewn cysylltiad â Grasshopper, sy'n rheoli'r ymgynghoriad gyda'r tîm yn Convatec.

Delwedd: Map safle




**ALLWEDD**

- Lleoliad Tyrbin Dangosol
- Traciau Dangosol a phadiau craeniau
- Llwybr gwifren preifat dangosol
- Safle Convatec Rhymni
- Lleoliad PV Solar Dangosol
- Ffin y Safle

**Sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth:**
Mae trin eich data personol yn ofalus yn bwysig i ni. Ewch i'n gwefan www.convatec.com/en-gb/ i ddarllen ein polisi preifatrwydd lle gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth fanwl am sut rydym yn diogelu ac yn defnyddio data personol. Gallwch ein ffonio ar 01685 701254